

SFO | swyddfa twyll difrifol

# Dioddefwyr a Thystion:
## 'Ein Hymrwymiad i Chi'

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| DIODDEFWYR A THYSTION | 1 |
| EIN SAFONAU - BETH ALLWCH EI DDISGWYL GENNYM NI | 1 |
| CYMHWYSO EIN SAFONAU | 3 |
| Cael eich manylion | 4 |
| Eich cyfweld | 4 |
| Cymryd eich datganiad ysgrifenedig | 5 |
| Cynllunio ymlaen | 6 |
| Hygyrchedd | 7 |
| Eich helpu i roi'ch tystiolaeth orau | 7 |
| Rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau | 8 |
| Eich helpu i hawlio'ch treuliau | 10 |
| Gwneud cais am ddigolllediad | 11 |
| GOFYN AM ADBORTH GENNYCH CHI | 12 |

# DIODDEFWYR A THYSTION

## Proses y llys

**Mae'r Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) yn ymchwilio ac yn erlyn yn yr achosion mwyaf o droseddu sy'n ymwneud â thwyll difrifol neu gymhleth, gan gynnwys llwgrwobrwyo a llygredd. Wrth wneud hynny, rydym yn ymrwymo'n llwyr i roi dioddefwyr a thystion yng nghanol pob achos.**
**I'r dibenion hyn, rydych yn ddioddefwr troseddu os ydych wedi cael niwed neu golled economaidd a oedd wedi'i achosi'n uniongyrchol gan drosedd yr oedd yr SFO wedi ymchwilio iddo'n ffurfiol. Gall dioddefwyr fod yn fusnesau yn ogystal ag unigolion.**

Yn gyffredinol, rydych yn dyst os ydych yn gwybod rhywbeth neu'n meddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i un o achosion yr SFO.

Rydym yn disgrifio isod y safonau rydym yn eu gosod i ni'n hunain, ac yn egluro sut y maent yn berthnasol i'r broses o ymchwilio ac erlyn mewn achosion o dwyll difrifol a chymhleth.

# EIN SAFONAU - BETH ALLWCH EI DDISGWYL GENNYM NI

Mae'r SFO wedi ymrwymo:

- i'ch trin yn deg, gyda pharch ac urddas drwy:
    - egluro'r broses ymchwilio ac erlyn , a sut y gallai effeithio arnoch chi,
    - eich rhoi mewn cysylltiad â staff SFO a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych,

- gyfathrebu gyda chi mewn modd priodol, yn cynnwys trefnu i gyfieithydd helpu ble fo angen
- rhoi'r wybodaeth y byddwch angen ar sut a ble i gael cyngor a chefnogaeth yn cynnwys mynediad at wasanaethau cefnogaeth arbenigol, neu gyfeirio atoch yn uniongyrchol ble fo angen
- cadw'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni'n ddiogel a'i darparu dim ond i'r rheini sydd â'r hawl i'w chael,
- gwahodd adborth ar y gwasanaeth a ddarperir gennym ac anrhydeddu eich hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad i derfynu ymchwiliad swyddogol neu erlyniad yn ei gyfanrwydd

- i leihau'r ymyrraeth a'r gost o fod yn dyst lle bynnag y bo modd drwy:
  - gynllunio ymlaen llaw i roi digon o rybudd i chi am ddigwyddiadau a fydd yn effeithio arnoch,
  - ystyried beth sy'n gyfleus i chi wrth gynllunio a gwneud trefniadau,
  - sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i chi yn ein swyddfeydd ac yn y llys ,
  - eich helpu i hawlio am dreuliau y gellir eu had-dalu (gweler yr adran ar dreuliau'n ddiweddarach yn y ddogfen),
  - rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau pwysig yn yr achos yn gyffredinol,
  - eich helpu yn y llys os gofynnir i chi roi tystiolaeth,
  - trefnu i chi gael eich gwarchod rhag dylanwadu amhriodol neu fygythiadau.

Os ydych yn ddioddefwr sydd wedi cael colled o ganlyniad uniongyrchol i'r troseddu, byddwn yn ceisio cael digollediad ariannol i chi os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Os ydych yn credu'ch bod wedi cael colled, rhowch wybod i ni'n syth. Mae rhagor am hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Yn ogystal â'r safonau gofal hyn, mae'r SFO wedi ei rwymo'n gyfreithiol gan y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau Hydref 2015 (Cod Dioddefwyr) ac mae hefyd yn ymroddedig i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Siarter Tystion.

# CYMHWYSO EIN SAFONAU

Mae safonau gofal yr SFO sydd wedi'u disgrifio uchod yn berthnasol pa un a ydych yn dyst gwirfoddol neu'n rhywun y mae'n ofynnol i chi roi cymorth gorfodol i ni o dan adran 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1987 (sydd wedi'i hegluro isod).

Byddwn yn cymhwyso'r safonau hyn o ddechrau'r achos i'r diwedd, a phryd bynnag y byddwn yn ymwneud â dioddefwyr a thystion. Maent yn sail i'r ffordd rydym yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- cael manylion personol perthnasol gennych chi,
- eich cyfweld i gael gwybod pa dystiolaeth y gallech ei rhoi,
- eich helpu i droi'ch adroddiad yn ddatganiad ysgrifenedig,
- asesu unrhyw anghenion sydd gennych fel tyst posibl,
- rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau ar adegau priodol wrth i'r achos fynd ymlaen, ac ateb eich cwestiynau.
- penderfynu a fydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys,
- cynllunio'n ofalus ymlaen llaw i leihau'r gost a'r anghyfleustra o roi tystiolaeth yn y llys,
- rhoi gwybod i chi lle y bydd angen i chi fod a pha bryd, ac am ba hyd (er bod amcangyfrifon o amser yn gallu newid),
- trefnu neu'ch helpu i drefnu cludiant a llety,
- eich cynorthwyo yn y llys a'ch helpu i roi'ch tystiolaeth orau yn ystafell y llys,
- eich helpu i hawlio tâl am dreuliau rhesymol,
- gofyn am adborth gennych chi, a gweithredu ar ei sail.

Bydd y gweithgareddau hyn yn gorgyffwrdd yn aml a gallant ddigwydd mewn trefn wahanol weithiau. Bydd rhai'n para am ychydig o funudau ac eraill yn rhedeg o ddechrau'r achos i'r diwedd. Rydym yn rhoi crynodeb ohonynt isod i ddangos sut y bydd ein safonau'n cael eu cymhwyso at bob un

## Cael eich manylion

Pan geir honiad o dwyll difrifol neu gymhleth, gall yr SFO gysylltu â thystion posibl i gael gwybod a fyddant yn gallu rhoi gwybodaeth berthnasol.

Os bydd un o ymchwilwyr yr SFO yn cysylltu â chi i'r diben hwn, bydd yn gofyn i chi am rai manylion personol, fel eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn, fel y gallwn gadw mewn cysylltiad drwy gydol yr achos. Cedwir y manylion hyn yn ddiogel, yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018. Os bydd unrhyw newid yn y manylion hyn, rhowch wybod i ni'n syth.

## Eich cyfweld

Os oes gwybodaeth berthnasol gennych, mae'n bosibl y gallech fod yn dyst ac y bydd angen i ymchwilydd yr SFO eich cyfweld. Mae llawer o fathau o gyfweliad, gan gynnwys sgwrs ddechreuol dros y ffôn, ac mewn llawer o achosion gall ymchwilwyr eich gwahodd i ddod i'n swyddfeydd i'ch cyfweld yn wirfoddol.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gallem benderfynu'ch cyfweld (neu ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu dogfennau i ni) o dan y darpariaethau gorfodol yn Adran 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1987. Gallai hyn ddigwydd am eich bod wedi gofyn i ni wneud hynny. Os ydych i gael eich cyfweld o dan Adran 2, byddwn yn anfon hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol atoch i roi gwybod am hynny. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn heb esgus rhesymol yn drosedd. Mae hefyd yn drosedd anwirio, dinistrio neu waredu fel arall, neu beri neu ganiatáu anwirio, celu, dinistrio neu waredu dogfennau rydych yn gwybod neu'n amau eu bod neu y byddent yn berthnasol i'r ymchwiliad.

Pa un a fyddwch yn cael eich cyfweld yn wirfoddol neu o dan bwerau Adran 2, gellir gwneud recordiad clywedol a/neu fideo o'ch adroddiad, gan ei bod yn hollbwysig ein bod yn deall pa dystiolaeth yn union y byddwch yn gallu ei rhoi. Bydd yr ymchwilydd sy'n cynnal y cyfweliad yn gallu egluro a thrafod hyn â chi ymlaen llaw.

## Cymryd eich datganiad ysgrifenedig

Mae'n bosibl y byddwn wedyn yn gofyn i chi ddarparu datganiad tyst ysgrifenedig, sy'n gofnod ffurfiol o'r dystiolaeth berthnasol y byddech yn gallu ei rhoi yn y llys. Mae'r broses o wneud a llofnodi datganiad tyst yn wirfoddol, ond yn angenrheidiol os byddwch yn rhoi tystiolaeth yn y llys.

Os ydych yn ddioddefwr yn ogystal â thyst posibl, byddwch hefyd yn cael cyfle i wneud Datganiad Personol Tyst neu Ddatganiad Effaith ar gyfer Busnes, neu'r ddau, y gellir ei ddarllen i'r llys os cafwyd y diffynnydd yn euog, cyn ei ddedfrydu. Mae hefyd yn bosibl y bydd gennych hawl i ddarllen y datganiad i'r llys eich hun, i egluro'r effaith a gafodd y trosedd arnoch chi fel unigolyn, neu ar fusnes y mae troseddu wedi effeithio arno.  Beth bynnag fydd natur y datganiad, bydd ymchwilydd yr SFO sy'n eich cyfweld neu'n eich helpu i wneud y datganiad:

- yn egluro pwrpas y datganiad,
- yn egluro'r broses o wneud datganiad,
- yn sicrhau ei fod wedi deall popeth ac yn ysgrifennu beth rydych wedi'i ddweud, neu beth fyddwch yn ei ddweud yn y cyfweliad,
- yn caniatáu i chi ddarllen eich datganiad drafft yn ofalus i sicrhau ei fod yn cyfleu'ch adroddiad yn gywir,
- yn gwneud unrhyw newidiadau rydych yn credu eu bod yn briodol,
- yn egluro'r goblygiadau cyn gofyn i chi ei lofnodi.

**Eich datganiad chi yw hwn a rhaid i chi fod yn gwbl fodlon ar ei gynnwys pan ydych yn ei lofnodi, gan ei bod yn bosibl y gofynnir i chi egluro unrhyw anghywirdebau neu fylchau'n ddiweddarach pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth yn y llys.**

Mae'n bwysig nodi y gellir gofyn i chi roi tystiolaeth mewn rhai amgylchiadau hyd yn oed os nad ydych wedi llofnodi datganiad.

Ni ellir newid cynnwys eich datganiad wedi i chi ei lofnodi. Fodd bynnag, os bydd angen i chi wneud newidiadau neu os ydych am egluro rhywbeth yn ddiweddarach, gallwch wneud datganiad ychwanegol. Os gelwir arnoch i roi tystiolaeth yn y llys, byddwch yn cael cyfle i'ch atgoffa'ch hun ymlaen llaw drwy ddarllen eich datganiad, ac mae'n bosibl y byddwch yn cael cyfeirio ato yn y llys.

## Cynllunio ymlaen

Os bydd yr SFO yn penderfynu y gall fod angen i chi roi tystiolaeth yn y llys, byddwn yn cynllunio ymlaen i leihau'r gost a'r ymyrraeth i chi.
Bydd hyn yn golygu gofyn i chi ymhell o flaen llaw a ydych wedi gwneud unrhyw ymrwymiadau pendant o gwmpas dyddiad y treial, er enghraifft, archebu gwyliau neu drefnu i fynd i'r ysbyty. Gan eich bod yn dyst i'r erlyniad, bydd y dyddiad pan ydych i roi'ch tystiolaeth yn cael ei drefnu, hyd y gellir, drwy ystyried pryd y byddwch ar gael. Ond mae'r amserlenni wrth gynnal treial yn dueddol o newid, felly bydd yr SFO yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid ac yn ystyried beth sy'n gyfleus i chi os bydd angen i ni aildrefnu rhywbeth. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi wedyn fel y gallwch wneud unrhyw drefniadau sydd eu hangen mewn da bryd.

Byddwn hefyd yn eich cynorthwyo wrth i chi baratoi i roi tystiolaeth yn y llys drwy:

- egluro trefn a phatrwm yr ystafell llys,

- rhoi cyfle i chi fynd o amgylch ystafell llys wag cyn i chi roi tystiolaeth,
- ceisio ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol sydd gennych neu'ch cyfeirio at rywun priodol yn yr SFO neu'r tu allan,
- gwneud cais am 'fesurau arbennig' mewn da bryd os yw'n briodol,
- delio ag unrhyw anawsterau tebygol o ran hygyrchedd yn y llys.

Mae llyfryn yr SFO 'Tyst dros y Swyddfa Twyll Difrifol' ar gael ar ein gwefan ac mae'n cynnwys llawer o fanylion am hyn: byddwn yn anfon copi ohono atoch chi os ydych i roi tystiolaeth yn y llys. Bydd y Swyddog Gofal Tystion hefyd yn falch o roi mwy o eglurhad o unrhyw beth neu'ch cyfeirio at rywun arall a fydd yn gallu helpu.

## Hygyrchedd

Os ydych yn credu y gallai fod angen gwneud addasiadau rhesymol i'ch galluogi i gael gwybodaeth oddi wrth yr SFO neu gael mynediad i'w hadeiladau, cysylltwch â'r ymchwilydd neu'r Swyddog Gofal Tystion cyn i chi ddod.
Os ydych yn credu y gallai fod angen gwneud addasiadau rhesymol i'ch galluogi i ddod i mewn i adeilad y llys neu i gael gwybodaeth yn y llys, cysylltwch â'r ymchwilydd neu'r Swyddog Gofal Tystion ymlaen llaw. Gallwch hefyd gael manylion cyswllt i'ch helpu ar dudalen cysylltiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder: **https://www.justice.gov.uk/contacts/hmcts.**

## Eich helpu i roi'ch tystiolaeth orau

Bydd aelod o'r SFO yn gofyn rhai cwestiynau cychwynnol i chi i asesu eich anghenion fel tyst posibl. Bydd yr asesiad hwn yn cwmpasu unrhyw faterion hygyrchedd, iaith neu gyfathrebu ac os fydd y llys yn barod i ddarparu unrhyw 'fesurau arbennig' i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau (gweler isod). Bydd yr aelod hwnnw o'r SFO hefyd yn ceisio nodi os gallech elwa o wasanaethau arbenigol a ddarperir gan asiantaeth trydydd sector megis Cymorth i

Ddioddefwyr, er mai dim ond os ydych eisiau i hyn ddigwydd byddwn ni'n gwneud hyn. Gall y broses o roi tystiolaeth mewn llys fod yn anodd iawn i rai pobl. Os yw'n ymddangos y gallai ansawdd eich tystiolaeth fod yn waeth am eich bod yn agored i niwed neu'n cael eich bygwth (mae hyn yn cynnwys plant o dan 18 oed a phobl sydd ag anawsterau cyfathrebu), mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael 'mesurau arbennig'. Gall y rhain gynnwys:

- rhoi tystiolaeth o'r tu allan i'r ystafell llys drwy gyswllt fideo byw fel na fydd angen i chi weld y diffynnydd, neu gael eich gweld ganddo,
- recordio'ch datganiad â chamera fideo a'i ddangos yn y llys wedyn,
- codi sgriniau o gwmpas y llwyfan tystio fel na fydd angen i chi weld y diffynnydd, neu gael eich gweld ganddo,
- cael cymorth gan Gyfryngwr Cofrestredig sy'n gallu helpu tystion i roi eu tystiolaeth orau.

Mae gennych hawl i ofyn i ni am fesurau arbennig. Os byddwn yn gweld drwy asesu y gallech gael mantais o fesurau arbennig, byddwn yn gwneud cais i'r llys ymhell cyn dyddiad y treial. Dim ond y llys a all benderfynu a yw mesurau arbennig yn addas, yn yr holl amgylchiadau, i'ch helpu i roi tystiolaeth. Bydd yr SFO yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y llys, a dylai hynny fod yn wythnosau lawer cyn i'r treial ddechrau.

Rydym yn eich annog i roi gwybod i ni o unrhyw anghenion sydd gennych, yn arbennig os yw'ch amgylchiadau'n newid gan y gallwn ailasesu eich gofynion, gyda'ch cydsyniad chi.

**Yn olaf, mae'n bwysig nodi ei fod yn drosedd i rywun geisio dylanwadu ar yr adroddiad rydych yn ei roi i'r SFO, neu ar y dystiolaeth y byddech yn ei rhoi yn y llys. Mae hefyd yn drosedd i rywun eich atal rhag cydweithredu ag ymchwiliad neu erlyniad.**

Anaml iawn y mae tystion yn cael eu bygwth, ond mae'r SFO yn ystyried bod hyn yn fater difrifol iawn a bydd yn cymryd camau i helpu i'w atal. Os ydych yn credu bod perygl i rywun eich bygwth, neu fod ymdrech wedi'i wneud i ddylanwadu ar yr adroddiad y byddech yn ei roi i ni neu'r llys, dylech roi gwybod am hyn ar unwaith i'r heddlu, i aelod o staff yr SFO neu staff y llys, yn ôl lle a pha bryd y mae'n digwydd.

## Rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau

O ddechrau'r achos i'r diwedd, eich prif gysylltwyr yn yr SFO fydd y gweinyddwr achos a'r Swyddog Gofal Tystion, a fydd yn gyfrifol ar wahanol gamau yn y broses am gadw mewn cysylltiad â chi. Byddwch yn cael eu henwau a'u manylion cyswllt ar bwynt priodol yn y broses.

Yn ystod yr ymchwiliad, y gweinyddwr achos fydd eich pwynt cysylltu yn ôl pob tebyg. Os bydd yn ofynnol i chi ddod i'r llys i dystio, bydd y Swyddog Gofal Tystion yn cysylltu â chi cyn dyddiad y treial. Y Swyddog Gofal Tystion fydd eich prif bwynt cysylltu i ddelio ag unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd gennych.

Os ydych i fod yn dyst, dim ond os cynhelir treial y bydd angen i chi roi tystiolaeth fel arfer. Fodd bynnag, gallai fod o gymorth i chi wybod pan fydd yr achos yn cyrraedd cerrig milltir pwysig. Felly, ar ôl ystyried yr angen i gadw gwybodaeth yn ddiogel, byddwn yn rhoi gwybod i chi:

- pan benderfynwn erlyn, neu beidio ag erlyn,
- pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu'n ddieuog,
- pan fydd dyddiad unrhyw dreial wedi'i bennu, ac yn rhoi gwybod i chi am y dyddiad a'r lleoliad.

Yn y cyfnod cyn y treial, byddwn bob amser yn cadarnhau:

- a yw'n ofynnol o hyd i chi roi tystiolaeth,
- y dyddiad a'r amser y bydd angen i chi ddod i'r llys,
- pa mor hir rydych yn debygol o orfod aros yn y llys,
- sut y gallwn helpu os bydd angen i chi aros yn hirach,
- enw cynrychiolydd yr SFO yn y llys a fydd yn gallu'ch helpu.

Wedi i'r treial ddod i ben, yn amodol ar unrhyw orchymyn gan y llys a'r angen i gadw gwybodaeth yn ddiogel, byddwn yn rhoi gwybod i chi:

- a yw'r diffynnydd wedi'i gael yn euog neu ddieuog,
- beth yw'r ddedfryd,
- a yw'r diffynnydd wedi cael gorchymyn i dalu unrhyw ddigollediad y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn, a beth fydd y broses ar gyfer hynny.

Mae'n bwysig cofio hefyd y byddwn yn eich helpu i hawlio tâl am dreuliau, ac yn eich cyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill os bydd angen.

## Eich helpu i hawlio'ch treuliau

Os byddwch yn dod i'n swyddfa i gael eich cyfweld fel tyst neu i roi datganiad tyst, ac os na roddwyd lluniaeth am ddim i chi ac os na allwch hawlio treuliau o ffynhonnell arall, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i adennill treuliau rhesymol oddi wrthyn ni, yn enwedig os ydych ar eich colled o ganlyniad i hyn. Bydd yr ymchwilydd sy'n eich cyfweld yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi am hyn.

Os dywedir wrthych y bydd angen i chi ddod i'r llys i roi tystiolaeth, byddwn yn anfon taflen atoch sy'n cynnwys y cyfraddau diweddaraf ar gyfer hawlio treuliau, a ffurflen gais i'w llenwi gennych chi. Bydd hon yn cynnwys yr holl reolau manwl ar gyfer hawlio treuliau.

Mae'r rheolau wedi'u hegluro hefyd yn 'Tyst dros y Swyddfa Twyll Difrifol'. Yn fyr, gallwch hawlio treuliau at derfyn penodol am deithio yn ôl ac ymlaen i'r llys, am lety, am fwyd a diod ddi-alcohol (oni bai fod lluniaeth wedi'i darparu am ddim gan y Gwasanaeth Tystion neu'r llys) ac weithiau am ddigolledeiad am golli enillion o ganlyniad i ddod i'r llys. Mae hefyd yn bosibl y byddwch yn gallu hawlio am gostau cysylltiedig fel rhai am ofal plant.

Bydd Swyddog Gofal Tystion yr SFO yn falch o egluro'r drefn a'ch helpu i lenwi'r ffurflen

## Gwneud cais am ddigolledIad

Mae digolledu'n ymwneud â'r golled a gafwyd o ganlyniad i drosedd, ac nid yw'n ymwneud â'r broses o fod yn dyst.

Os yw diffynnydd wedi'i gael yn euog, ac os yw'n briodol gwneud hynny, bydd yr SFO yn gwneud cais i'r llys am ddigolledu'r dioddefwyr yn yr achos.  Gwneir y cais hwn ar ddiwedd ymchwiliad ar gyfer atafaelu, a gall hynny fod yn gryn amser ar ôl cael y diffynnydd yn euog.

Gellir gwneud cais am ran neu'r cyfan o'r golled a gafwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r troseddau y cafwyd y diffynnydd yn euog o'u cyflawni. Wrth wneud hyn, ystyrir ffeithiau penodol yr achos a'r holl amgylchiadau, gan gynnwys a ydych wedi cael eich digolledu o ffynhonnell arall neu beidio. Gellir cael achosion lle nad yw'n briodol gwneud cais am ddigolledu. Y llys fydd yn penderfynu'n derfynol ynghylch a roddir digolllediad.

Bydd y swm mewn unrhyw orchymyn digolledu yn fater i'r llys hefyd, a bydd unrhyw beth sy'n daladwy i chi i'ch digolledu yn dibynnu ar dalu'r gorchymyn digolledu gan y diffynnydd. Gellir caniatáu amser i'r diffynnydd dalu hefyd, felly mae'n bosibl y bydd yr arian yn cael ei dalu'n rhandaliadau.

Oherwydd hyn, rydym yn awgrymu'ch bod yn cymryd cyngor cyfreithiol annibynnol ar y golled rydych yn credu i chi ei chael. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael cyngor hefyd gan Cyngor ar Bopeth neu'r Ganolfan Cyfraith leol.

# GOFYN AM ADBORTH GENNYCH CHI

Rydym yn falch o gael adborth o bob math. Rydym wedi ymrwymo i ddilyn safonau'r Comisiynydd Dioddefwyr ar gyfer trafod cwynion www.victimscommissioner.org.uk

Os nad ydych yn fodlon ynghylch unrhyw agerdd o'r lefel o wasanaeth a dderbynioch, yn cynnwys os ydych yn teimlo nad yw'r SFO wedi bodloni eich hawliau fel y nodir yn y Cod Dioddefwyr, gallwch roi adborth i ni neu wneud cwyn trwy wefan yr SFO (www.sfo.gov.uk). Nid yw hyn yn cynnwys y penderfyniadau neu ddyfarniadau a wneir gan y llys.

Os yw'n well gennych siarad â rhywun, gallwch siarad â'r Swyddog Gofal Tystion. Fel arall, gallwch ddarparu adborth arall i ni drwy'r e-bost yn **public.enquiries@sfo.gsi.gov.uk**

# Hawl Dioddefwr i Adolygiad

Os bydd yr SFO yn penderfynu terfynu ymchwiliad ffurfiol neu erlyniad yn gyfan gwbl, a'ch bod wedi rhoi gwybod i'r SFO eich bod yn ddioddefwr, byddwch yn cael gwybod am natur a'r rheswm dros y penderfyniad, yn amodol i'r angen i gynnal diogelwch gwybodaeth.

## Dolenni i wybodaeth bellach

Gellir hefyd gweld yr wybodaeth hon ar ein gwefan www.sfo.gov.uk sydd â thudalennau ymroddedig i ddioddefwyr a thystion.

Gellir gweld y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470212/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF

Gellir gweld y Siarter Tystion yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/264627/witness-charter-nov13.pdf

SFO serious fraud office

Serious Fraud Office
2 - 4 Cockspur Street
London SW1Y 5BS

Telephone: +44 (0)20 7239 7272

www.sfo.gov.uk
Victims and Witnesses: our commitment to you
v1.1 8.7.15

Designed by the SFO Graphic Unit